




Dim delweddau
map

HANES AC ARCHAEOLEG

LLWYBR ELÁI

Bydd hyn yn eich helpu i ddarganfod rhai o nodweddion hanesyddol ac archeolegol diddorol ar hyd Llwybr Trelái. Mae'r rhain yn cynnwys Gorsaf Bwmpio Edwardaidd, ac olion Fila Rufeinig a'r Castell a'r Gerddi yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Cliciwch ar yr 'iconau' i ddarganfod mwy...

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.
Ffôn: 029 2087 3230
E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk
Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad,
www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth, www.caerdyddawyragored.com

ALLWEDD

- | | | |
|---|--|---|
|  Parcio |  Eglwys |  Celc yr Oes Efydd |
|  Llwybr Trelái |  Capel y Methodistiaid Wesleiaidd |  Bwyell Oes y Cerrig |
|  Bwthyn Silver Stream |  Fila Rufeinaidd Trelái |  Hen Bont Lecwydd |
|  Cwrs Dŵr wedi'i Newid |  Castell a Gerddi Sain Ffagan |  Cleddyf o'r Oes Efydd |
|  Ffynnon Pont Trelái |  Llawr Cyrlio Greenwood |  Bragdy'r Tŵr |
| |  Gollyngfa Garthffosiaeth |  Melin Yd |



OES Y CERRIG

Mae archeolegwyr yn defnyddio'r term 'Oes y Cerrig' ar gyfer y cyfnod o amser pan oedd dynion yn defnyddio cerrig i wneud offer ac arfau. Mae eitemau o'r fath wedi goroesi'n well na'r rhai o ddeunyddiau meddalach, fel pren. Heddiw, gallwn weld tystiolaeth o hyn mewn darnau fflint a chornfaen wedi eu siapio neu eu hasglodi i'w defnyddio fel offer torri ac arfau, yng nghasgliadau Cynhanes Cynnar Archaeoleg a *Nwmismateg Amgueddfa Cymru.*



ENGHREIFFTIAU O OFFER OES Y CERRIG –
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU



OES NEOLITHIG

(OES NEWYDD Y CERRIG)

Yn yr 'Oes Neolithig' gwelwyd dechrau amaethyddiaeth sef y Chwyldro Neolithig. Defnyddiwyd cerrig wedi'u malu a'u sgleinio i wneud offer i falu a thorri ar gyfer cynhaeafu a phrosesu planhigion. Gellir gweld enghreifftiau o arteffactau o'r cyfnod hwn yng nghasgliadau Cynhanes Cynnar Archaeoleg a Nwmismateg yn [Amgueddfa Cymru](#).

ENGHREIFFTIAU O ARTEFFACTAU EFYDD CELTAIDD –
AMGUEDDEA GENEDLAETHOL CYMRU

OES EFYDD

Yr 'Oes Efydd' oedd yn dilyn yr Oes Neolithig. Mae'n cyfeirio at gyfnod pan roedd dynion yn defnyddio technegau gwaith metel datblygedig i fwyndoddi copr a thun i greu aloi efydd. Mae'r mwynau naturiol hyn yn brin ac yn aml yn cynnwys arsenig. Wedi iddynt gael eu toddi gyda'i gilydd, fe'u castiwyd yn arteffactau efydd. Gellir gweld enghreifftiau o waith metel gweithwyr efydd Celtaidd yn nghasgliadau Cynhanes Diweddar c.2,000CC – 430C Archaeoleg a Nwmismateg yn [Amqueddfa Cymru](#).



ENGHREIFFTIAU O EMWAITH RHUFEINIG –
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

RHUFEGINIAID

Cyrhaeddodd y 'Rhufeiniaid' ym Mhrydain yn 55CC ac fe wnaethant aros nes oddeutu 410OC. Yn ystod eu concwest ym Mhrydain, daeth byddin y Rhufeiniaid i gwrdd â gwrthwynebiad cryf gan y llwythi yng Nghymru, y prif rai oedd y Silwriard, yr Ordofigiaid, Y Demetiad a'r Deceangli. Roedd yr ymladd yn aml yn chwynn, a dim ond yn 78OC y meddiannwyd Cymru gyfan gan y Rhufeiniaid. Yng nghefn gwlad, yn enwedig ar arfordir y de, roedd ffermdai a flâu, a oedd yn aml yn gartrefi i bobl gyfoethog a llwyddiannus. Mae casgliad Archaeoleg a Nwmismateg Rhufeinig *Amgueddfa Cymru* yn cynnwys canfyddiadau o flâu a ffermdai Llanilltud Fawr, Trelái a Llandochoau.

ENGHREIFFTIAU O EMWAITH RHUFEGINIG –
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

CANOLOESOL

Mae 'Canoloesol' neu'r Oesoedd Canol (gan gynnwys y cyfnod Normanaidd) yn dyddio gan amlaf o ddiwedd yr Ymerodraeth Orllewinol Rufeinig yn y 5ed ganrif hyd at ddechrau'r cyfnod Ôl-Ganoloesol ar ddiwedd y 15fed ganrif. Gellir darganfod esiamplau o'r cyfnod hwn yng nghasgliadau Canoloesol a Hwyrach Archaeoleg a Nwmistateg a Chelf yn [Amgueddfa Cymru](#).



Y TU MEWN I EGLWYS SANT TEILO –
AMGUEDDFA WERIN CYMRU



PAENTIAD O DEULU BRENHINOL TUDURAIDD –
AMGUEDDEFA GENEDLAETHOL CYMRU

ÔL- GANOLOESOL

Mae 'Ôl-ganoloesol' yn derm archeolegol a ddefnyddir ar gyfer astudio deunydd yn ystod y 500 mlynedd diwethaf, ar ôl diwedd y cyfnod Canoloesol. Ym Mhrydain, mae hyn yn golygu unrhyw beth o gyfnod y Tuduriaid (1485-1601) hyd heddiw, gan gynnwys Elisabethaidd, Georgaidd, Fictoraidd ac Edwardaidd. Gellir gweld esiamplau o arteffactau Ôl-ganoloesol yng nghasgliadau Canoloesol a Hwyrach Archaeoleg a Nwmistateg a Chelf yn [Amgueddfa Cymru](#).

MELIN YD SAIN FFAGAN

Ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, roedd **castell, eglwys**, ychydig o dai fferm a melin yd wrth ymyl pont oedd yn croesi'r afon ym Mhentref Sain Ffagan. Gellir gweld y felin yd sy'n dyddio o'r oes **Ôl-ganoloesol** yn Argraffiad Cyntaf mapiau (Arolwg Ordnans Chwe modfedd) o Drelái a Bro Morgannwg. Defnyddiwyd y felin, fwy na thebyg i felino ceirch a barlys yn flawd, gan fod yr hinsawdd yn rhy wlyb i dyfu gwenith. Mae enghraifft weithiol o felin yd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd yn cael ei gweithredu â dŵr i gynhyrchu blawd gwyn, blawd semolina, bywyn gwenith a bran i'w chael yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Mae gweddillion Melin Yd Sain Ffagan, sy'n cynnwys hen sianeli dŵr a llifddor bren, i'w gweld o Michealson Road, Sain Ffagan ond dylid cymryd gofal wrth fynd at y safle.



Detholiad o Fap Arolwg Ordnans 1878 – Swyddfa Cofnodion Morgannwg



Olion llifddorau Melin Yd Sain Ffagan – Michaelston Road, Sain Ffagan



OLION LLIFDDORAU MELIN YD SAIN FFAGAN –
MICHAELSTON ROAD, SAIN FFAGAN

BWTHYN SILVER STREAM

(Adeilad Rhestredig Gradd II)

Mae Bwthyn Silver Stream yn un o grŵp o adeiladau'r ystâd sydd wedi'u casglu o dan **Gastell Sain Ffagan**. Yn flaenorol fe'i gelwid yn Fwthyn y Nant neu Fwthyn y Glannau (Brook neu Bank Cottage) ac roedd yn dŷ i'r gof yn flaenorol. Dymchwelwyd 'efail y pentref' oedd yn sefyll yn union i'r de orllewin yn 1972. Mae rhannau o fwthyn o'r unfed ganrif ar bymtheg yn dal i sefyll, ond fe adeiladwyd llawer ohono yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (gellir eu gweld o hyd o'r tu mewn). Mae'n fwthyn deulawr to gwellt â chanddo waliau rwbel gwyn, simneiau bric a ffenestri plwm crwm diemwnt y gellir eu gweld o Rhiw'r Castell, Sain Ffagan.

BWTHYN SILVER STREAM –
CASTLE HILL, SAIN FFAGAN



Plac enw

CASTELL A GERDDI SAIN FFAGAN

(Adeilad Rhestredig Gradd II)

Mae Castell Sain Ffagan yng ngorllewin Caerdydd, yn edrych dros gwm Afon Elái i'r de, a chwm llai llednant i'r gorllewin. Mae'r ochrau serth yn darparu amddiffynfa naturiol, ac mae'r tir gwastad i'r gogledd a'r dwyrain yn gartref i Bentref Sain Ffagan y mae llawer ohono y tu mewn i [Ardal Gadwraeth Sain Ffagan](#).

Yn ôl y sôn, adeiladwyd y castell cyntaf yn Sain Ffagan gan y marchog **Normanaidd** Peter Le Sore oddeutu 1091. Yn sgîl gwaith cloddio yn 1978 ac 1980 o fewn tiroedd y Castell dadorchuddiwyd ardal o'r pentref a adnabyddir fel 'Y Cwm' a ficerdy **Canoloesol**.

Nesaf



OLION O'R 'CWM' –
AMGUEDDFA WERIN CYMRU



DETHOLIAD O FAP AROLWG ORDNANS 1878 –
SWYDDFA COFNODION MORGANNWG

CASTELL A GERDDI SAIN FFAGAN

Ond, tynnwyd unrhyw adeiladau **Canoloesol** oedd yn weddill pan adeiladwyd plasty **Elisabethaidd** mawr yn y wlad gan Dr John Gibbon oddeutu 1580-86 gyda gerddi ffurfiol tua'r gogledd. Erbyn 1616, y Teulu Lewis oedd yn berchen arno ac fe wnaethant ddodrefnu a phanelu'r tu mewn. Yn 1730 priododd Elizabeth Lewis Drydydd Iarll Plymouth, rhan o'r teulu Windsor, ac yn dilyn marwolaeth ei thad, Thomas Lewis - etifedd yr ystad - yn 1736, aeth y castell i deulu ei gŵr. Yn 1852 Robert Windsor Clive a'i wraig Mary oedd yn byw yn y tŷ. Pan fu farw yn 1859, parhaodd y Fonesig Windsor i fyw yn y Castell, ac yn 1868-9 gwnaeth waith adnewyddu helaeth i'r Castell a'r gerddi.

Blaenorol

Nesaf



CASTELL SAIN FFAGAN – AMGUEDDFA WERIN CYMRU
(PLASTY YN Y WLAD O OES ELISABETH, WEDI I ADEILADU GAN DR JOHN GIBBON)

CASTELL A GERDDI SAIN FFAGAN

Mae gan y gerddi strwythur gwaelodol **Tuduraidd** ac mae wedi cadw llawer o'u cynllun **Fictoraidd** ac **Edwardaidd** gan gynnwys plannu strwythurol wedi'u gosod mewn adrannau a therasau. Efallai bod y pyllau ffurfiol o darddiad **Canoloesol** ac roeddent yn bendant yn bodoli yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn y tiroedd hefyd mae gardd ddŵr **Fictoraidd** wedi'i chynllunio gan Pulham and Company a *choetir arbrofo!* a osodwyd yn nechrau'r ugeinfed ganrif.

Ystad Plymouth oedd yn berchen ar y Castell a'r tiroedd tan 1946, pan gyfrannodd Iarll Plymouth Gastell Sain Ffagan a phedwar ugain erw o dir i agor *Amgueddfa Werin Cymru*. Agorwyd y gerddi i'r cyhoedd yn 1947 a'r castell

Blaenorol

Nesaf



GERDDI TERAS A PHYLLAU PYSGOD, CASTELL SAIN FFAGAN –
AMGUEDDFA WERIN CYMRU

CASTELL A GERDDI SAIN FFAGAN

ar 1 Gorffennaf 1948. Mae'r safle, a adnabyddir bellach fel Amgueddfa Werin Cymru yn un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru. Y Castell yw'r brif arddangosfa, fe'i adnewyddwyd yn 1988 i gynrychioli plasty nodweddiadol Cymreig o oddeutu 1830. Erbyn hyn mae'n eistedd o fewn can erw o barcdir lle ailgodwyd dros ddeugain o enghreifftiau o bensaernïaeth Gymreig o wahanol gyfnodau hanesyddol. Mae bridiau brodorol anifeiliaid i'w gweld yn y caeau a'r closau, a chynhelir arddangosfeydd o dasgau ffermio yn rheolaidd. Ceir hefyd orielau gydag arddangosfeydd o wisgoedd, bywyd bob dydd ac offer ffermio.

Blaenorol



ARDDANGOSYN PENNAF, CASTELL SAIN FFAGAN –
AMGUEDDFA WERIN CYMRU



Detholiad o Fap Arolwg Ordnans 1878 Pentref Sain Ffagan – Swyddfa Cofnodion Morgannwg



EGLWYS Y FORWYN FAIR FENDIGAID – SAIN FFAGAN

EGLWYS Y SANTES FAIR FORWYN FENDIGAID

(Adeilad Rhestredig Gradd II)

Mae gan Eglwys y Santes Fair Forwyn Fendigaidd wreiddiau amlwg o'r deuddegfed ganrif a chofnodwyd y rheithor cyntaf yno yn 1301. Cafodd ei newid a'i chyfoethogi yn fawr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac ychwanegwyd cyntedd allanol yn y bymthegfed ganrif, ac ailadeiladwyd y tŵr yn yr ail ganrif ar bymtheg. Adferwyd yr holl eglwys yn 1858-60 gan G. E. Street a ychwanegwyd cyfres o ffenestri addurnedig. Mae'r gwaith adfer yn cyfateb yn weddol agos â'r cyfnod **Canoloesol** a thalwyd amdano gan y Fonesig Windsor, oedd yn byw yng **Nghastell Sain Ffagan** ar y pryd.

Nesaf



TŴR A AILGODWYD, EGLWYS Y FORWYN
FAIR FENDIGAID – SAIN FEAGAN

EGLWYS Y SANTES FAIR FORWYN FENDIGAID

(Adeilad Rhestredig Gradd II)

Fe'i adeiladwyd o gerrig rwbel
gyda thŵr carreg nadd sy'n
weddol sgwâr, to llechen
Gymreig ar ongl, drws bwa bach
yr offeiriad, festri fach, siambrau
canu clychau (daeth y clychau o
Eglwys Lecwydd) a rhai gargoiliau.
Mae'r tu mewn wedi'i blastro a'i
baentio a chanddo gôr a chorff
addurnedig iawn. Mae'r Eglwys,
sydd yng nghanol Pentref Sain
Ffagan ar Grofft y Genau Road yn
cael ei defnyddio hyd heddiw.

LLAWR CYRLIO GREENWOOD

Adeiladwyd y llawr cyrllo **ôl-
ganoloesol** gan Robert Forrest,
Dirprwy Is-gapten Morgannwg
yn y bedwaredd ganrif ar
bymtheg. Mae bodolaeth y llawr
yn adlewyrchu pwysigrwydd
datblygiad Pentref Sain Ffagan
a gellir gweld y gweddillion yng
Nghoetiroedd Coedbychan, y gellir
mynd yno o St. Fagans Drive.



Detholiad o fap Pentref Sain Ffagan 1936



Llawr Cwrlo a chronfa ddŵr segur

CELIC YR OES EFYDD

Mae'r celic yn cynnwys dau flaen gwaywffon o'r **Oes Efydd**, pum bwyell, a rhan o lafn cleddyf oedd yn berchen i bobl oedd yn byw yng Nghymru rhwng 2,500CC a'r ganrif gyntaf OC. Darganfuwyd y celic yng Nghoedwig Fawr Sain Ffagan yn 1862 wrth gloddio am gerrig i adeiladu Rheilffordd Great Western.

Cafodd y coetir, sydd bellach yn fan agored cyhoeddus, ei ailenwi fel Coedwig Fawr Plymouth yn 1922, pan y'i rhoddwyd i'r ddinas gan larll Plymouth i'w gadw fel man hamdden i'r cyhoedd. Mae'r chwareli Carreg Radur a chalchfaen dal i'w gweld yn rhan ddeheuol y

Next



ENGHREIFFTIAU O BENNAU PICELLAU A CHLEDDYFAU
OES YR EFYDD – AMGUEDDEA WERIN CYMRU

BRONZE AGE HOARD

goedwig, a gellir cael mynediad o Llewellyn Avenue, Trelái. Mae'r brif linell drenau sy'n rhedeg ger y coed bellach yn rhan o Network Rail sy'n cynnwys y daith o Abertawe i Lundain a gellir ei chroesi ar y groesfan wastad ar Michaelson Road, Sain Ffagan.

[Previous](#)

CORSTIR – COEDWIG PLYMOUTH,
SAIN FFAGAN



Chwarel Gerrig Segur Radur – Coedwig Plymouth, Sain Ffagan

BWYELL OES Y CERRIG

Darganfuwyd pen bwyell o fflint nadd **Neolithig** yng Nghoedwig Glan-yr-afon, yn union i'r gogledd o Frank Road yn Nhrelái wrth ymyl y gyffordd â Riverside Walk. Mae'r coetir yn edrych dros Afon Elái ac mae'n Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) oherwydd y fflora sydd ar y llawr, gan gynnwys Cwccwll y Mynach sy'n brin ac yn wenwynig.



ENGHREIFFTIAU O BENNAU BWYEILL OES Y CERRIG
– AMGUEDDFA WERIN CYMRU



Coetir Glan-yr-afon yn agos at Afon Elái – i'r gogledd o Frank Road, Trelái

MELIN YD TRELÁI

Melin Yd sy'n dyddio o'r oes **Ōl-ganoloesol** sy'n ymddangos yn Argraffiad Cyntaf mapiau (Arolwg Ordnans Chwe modfedd) o Drelái a Bro Morgannwg. Defnyddiwyd y felin, fwy na thebyg i felino ceirch a barlys yn flawd, gan fod yr hinsawdd yn rhy wlyb i dyfu gwenith. Mae enghraifft weithiol o felin yd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd yn cael ei gweithredu â dŵr i gynhyrchu blawd gwyn, blawd semolina, bywyn gwenith a bran i'w chael yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Mae olion Melin Yd Trelái i'w gweld o Heol Muston oddi ar Plymouth Wood Road yn Nhrelái, nepell o'r iard goed, maes bowlio a chyrtiau tenis i'r dwyrain o Ysgol Fabanod ac Iau Herbert Thompson.



ENGHRAIFFT O FELIN YD O'R 19EG GANRIF
- AMGUEDDFA WERIN CYMRU



Y tu mewn i Felin Yd o'r 19eg
ganrif – Amgueddfa Werin Cymru



Y tu mewn i Felin Yd o'r 19eg
ganrif – Amgueddfa Werin Cymru



Y tu mewn i Felin Yd o'r 19eg
ganrif – Amgueddfa Werin Cymru



Olwyn Ddŵr Melin Yd o'r 19eg
ganrif – Amgueddfa Werin Cymru

CAPEL Y METHODISTIAID

WESLEAIDD

Daeth grŵp o diwtoriaid a myfyrwyr, gan gynnwys y brodyr John a Charles Wesley, at ei gilydd ym Mhrifysgol Rhydychen yn niwedd yr 1720au, ac roeddent yn adnabyddus ar y pryd fel Methodistiaid Rhydychen. Erbyn yr 1840au, roeddent wedi'u hailenwi'n Fethodistiaid Wesleiaidd, a dechreusant raglen uchelgeisiol a drud o adeiladu capeli ac ysgolion, mewn cymdogaethau tlawd yn bennaf. Roedd Methodistiaeth Wesleiaidd yn llai poblogaidd yng Nghymru nag yr oedd yn Lloegr tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan wnaeth mewnfudwyr o Loegr gynyddu'r cynulleidfaoedd. Mae safle Capel y Methodistiaid Wesleiaidd cyntaf o'r cyfnod **Ôl-ganoloesol**, ar Mill Road Trelái, fel y'i nodir yn Argraffiad cyntaf map (AO) 1880, wedi'i feddiannu gan dai erbyn heddiw. Ond, mae esiampl o Gapel Methodistiaid Wesleiaidd, Eglwys Wesley, sydd newydd ei hadnewyddu ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn Nhreganna.




EGLWYS WESLEY – Ffordd Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna

GWEITHDAI BRAGDY TRELÁI – STATION TERRACE, TRELÁI

BRAGDY'R TŶR

Dyma safle Bragdy'r Tŵr o'r oes **Ôl-ganoloesol** a agorwyd yn 1855 fel rhan o Ely Brewery Company, fel y'i nodir ym map (AO) Argraffiad Cyntaf 1885. Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd hi'n llawer mwy diogel yn Ne Cymru ddiwydiannol i yfed y cwrw nag yr oedd hi i gyffwrdd y dŵr, fel darganfu nifer o ddioddefwyr colera, a orfu dalu'r pris. Yn ôl hysbyseb lliw ar gyfer Bragdy Trelái mewn llawlyfr swyddogol Caerdydd yn 1955, disgrifir y cynnyrch fel 'Cwrw Amser Da' ('Beer of Good Cheer'). Yn 1960, trosfeddianwyd Bragdy Trelái gan Rhymney Brewery Ltd., a ddisgrifir fel y busnes bragu mwyaf yng Nghymru gyda hanes yn pontio dros 140 o flynyddoedd. Fe'i caffaelwyd gan Whitbread ddiwedd yr 1960au. Mae'r safle ar Rhodfa'r Orsaf, Trelái nawr yn gartref i weithdai Bragdy Trelái.

Bragdy Tower 1963



FFYNNON PONT TRELÁI

Safle ffynnon **Ôl-ganoloesol** ger Pont Trelái yw hwn, fel y'i nodir ym map (AO) Argraffiad Cyntaf 1885. Erbyn hyn mae wedi'i orchuddio gan Riverside Terrace, Trelái. Mae enwau'r strydoedd lleol fel Everswell Road, Wellright Road a Brook Road yn y Tyllgoed yn rhoi syniad am y dyfrffyrdd oedd yn rhedeg drwy'r ardal.



SAFLE'R FFYNNON ÔL-GANOLOESOL –
YN AGOS AT BONT TRELÁI

NEWIDIAD I'R CWRS DŴR AR HYD AFON ELÁI

Cwrs Dŵr sy'n dyddio o'r oes **Ôl-ganoloesol**, a nodir yn Argraffiad Cyntaf mapiau (Arolwg Ordnans Chwe modfedd) o Drelái a Bro Morgannwg. Mae cwrs Afon Elái wedi'i newid mewn mannau eraill yn ogystal, gan gynnwys ar gyfer adeiladu ffordd gyswllt Grangetown.

CWRS DŴR WEDI'I NEWID O DDYDDIAD
ÔL-GANOLOESOL – AFON ELÁI

CLEDDYF O'R OES EFYDD

Darganfuwyd prif ran llafn siâp deilen cledwyf **efydd** a adnabyddir yn gyffredin fel math 'Ewart Park', heb y carnblat na brig y llafn, ar hen safle melin bapur Teape Wiggins (Arjo Wiggins) ym Mhont Trelái.

Roedd Wiggins Teape yn wneuthurwr a masnachwr papur arbenigol a sefydlwyd yn 1761. Erbyn diwedd y 1970au, roedd yn berchen ar felinau papur a ffatrioedd ledled y byd i gyd. Yn 1990, cyfunodd ag Appleton Papers Inc. ac fe'i ailenwyd yn Wiggins Teape Appleton plc., ac roedd yn masnachu fel Arjo Wiggins yn ddiweddarach. Daeth y gwaith i ben yn 2000 ac mae'r safle bellach wedi'i chlirio yn barod ar gyfer ailddatblygu. Bydd y gwaith yn cynnwys man agored, cysylltiad pont i Drelái a chreu rhan olaf Llwybr Elái. Bydd yn cysylltu'r rhannau presennol o Barc Sanatorium, Lecwydd a Wroughton Place (oddi ar Ffordd Orllewinol y Bont-faen), ym Mhont Trelái.



ENGHRAIFFT O GLEDDYF A CHERFLUN OES YR
EFYDD – AMGUEDDFA WERIN CYMRU

OLION FILA RUFEGINIG TRELÁI – PARC TRELÁI, CAERAU



Enghraifft o grochenwaith Rhufeinig –
Amgueddfa Werin Cymru

FILA RUFENAIDD TRELÁI (HENEGB GOFRESTREDIG)

Ar safle corsiog isel; adeiladwyd y
fila ar ongl rhwng prif sianel Nant
Caerau a llednant a sythwyd ac
a ddyfnhawyd. Fe'i adeiladwyd
yn gyntaf yn hanner cyntaf yr ail
ganrif, ac roedd ganddo ddau brif
floc, Adeilad I i'r gogledd ac Adeilad
II i'r gorllewin, oedd yn cynnwys
iardiau. Nododd arolygon yn 2001
ffos o gwmpas safle'r Fila.

Roedd y prif dŷ (Adeilad I) yn dŷ
siâp petryal gydag adenydd, ac
fe'i ailadeiladwyd yn rhannol,
efallai yn y drydedd ganrif. Roedd
gan Adeilad II ystafell ymolchi
ynghlwm, ac fe'i dymchwelwyd o
gwmpas y bedwaredd ganrif. Mae
darganfyddiadau yn awgrymu
bod pobl wedi gorffen byw yno
oddeutu 325OC.

Nesaf




OLION FILA RUFENIG TRELÁI – PARC TRELÁI, CAERAU

EXPLORATION OF THE Remains of a Roman Villa ON THE RACECOURSE AT ELY NEAR CARDIFF

AS LAID DOWN BY MR JOHN STORRIE,
AND RE-DRAWN BY MR EDWIN SEWARD.

NR. DOTTED LINES INDICATE LIMITS OF
— EXCAVATION

The plan, as will be observed, does not show the full extent of the excavations. Besides several walls in the first hundred feet of the section, there were, beyond that shown on the plan, a thick wall at 400 feet, and one at 500 feet, while evidence of two walls further east was found, but could not be followed up without encroaching on the race course.



1893/4 Cynlluniau ymchwilio olion y Fila Rufeinig,
safle Cae Rasio Trelái gynt [trwy garedigrwydd
Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd]

FILA RUFENAIDD TRELÁI (HENEB GOFRESTREDIG)

Cloddiodd John Storrie,
curadur Amgueddfa Caerdydd
(rhagflaenydd [Amgueddfa Cymru](#))
ac awdur 'The Flora of Cardiff'
(1886) safle'r Fila **Rufeinig** ar
gae ras Trelái ar gais Cymdeithas
Naturiaethwyr Caerdydd yn 1893
(fel y disgrifiwyd yn eu Dyddlyfr
Cyfrol XXVI [rhan II]). Darganfuwyd
nifer o wrthrychau carreg a
chrochenwaith **cyn-Rhufeinig**
yn ogystal â nifer sylweddol
o wrthrychau **Rhufeinig** gan
gynnwys darnau arian **efydd**,
gemwaith **efydd**, cerrig naddu,
darnau o grochenwaith, to carreg
Pennant, esgyrn anifeiliaid a darn
o benglog dynol tenau iawn.
Yn ogystal, darganfu Mr Storrie
weddillion ffowndri **Rufeinig** a
thystiolaeth bod glo lleol wedi'i
ddefnyddio i fwyndoddi haearn

Blaenorol

Nesaf



OLION FILA RUFENIG TRELÁI –
PARC TRELÁI, CAERAU

FILA RUFENNAID TRELÁI (HENEH GOFRESTREDIG)

a chynhyrchu rhyw fath o ddur
cynnar tua 56OC.

Diogelir gweddillion y Fila

Rufenig yn awr yng nghanol

Parc Trelái, sydd yng Nghaerau
ar safle blaenorol cae ras Trelái.

Sefydlwyd y cae ras gan Glwb
Rasio Caerdydd yn 1855, gan gau
yn y 1930au - yn ôl y sôn, enillwyd
y ras olaf gan dad Lester Piggott,
Keith Piggott. Caffaelwyd y safle
gan y Cyngor yn 1933, i ddarparu
parcdir i gymuned Caerau oedd
yn tyfu. Y prif llwybr mynediad i'r
parc yw i lawr y lôn sy'n arwain
oddi ar Vincent Road, Caerau. Mae
yna bwyntiau mynediad eraill o
ystad dai'r 1950au tua'r gogledd,
a llwybr troed sy'n arwain allan o'r
parc o dan y ffordd gyswllt i Goed
Lecwydd.

Blaenorol

HEN BONT LECWYDD

(HENE B GOFRESTREDIG)

Gyda'i wreiddiau **Canoloesol**, mae gan Hen Bont Lecwydd dri bwa wedi'u gwneud o garreg rwbwl cwrs. Mae pwynt i ddau o'r bwâu; mae'r un canol yn hanner cylch ac wedi'i ailadeiladu. Roedd yn arfer cario ceirt cludwyr o forfa heli Gwaun Lecwydd, trwy Bentref Lecwydd, Tregatwg, Y Barri ac yna i'r môr. Pan agorwyd y bont newydd yn 1935, gadawyd yr hen un yn ei lle i ddarparu mynediad i Dŷ Pont Lecwydd, sydd yn dal i fod oddi ar Leckwith Road.



HEN BONT LECWYDD –
HEOL LECWYDD




YR ORSAF BWMPIO –
HEOL PENARTH

GOLLYNGFA GARTHFFOSIAETH - RHANBARTH GORLLEWIN CAERDYDD (ADEILAD RHESTREDIG GRADD II)

Fe'i adeiladwyd rhwng 1907 ac 1910 gan William Harper (peiriannydd) fel gorsaf bwmpio carthffosiaeth **Edwardaidd**, ac mae'n cynnwys adeilad un llawr o frics melyn gyda tho llechi a chwe ffenestr grom bengron a bwau o frics coch.

Yn berchen i Ddŵr Cymru yn ddiweddarach, fe'i adnabyddir fel 'Yr Orsaf Bwmpio' erbyn heddiw. Gellir mynd ato o Heol Penarth, ac mae'n gartref i 35 o werthwyr hynafion ar dri llawer, gyda dros 32,000 troedfedd sgwâr o ardal cynllun agored, gydag amrywiaeth o nwyddau hynafol gan gynnwys militaria, drychau a chelfi.



HANES AC ARCHAEOLEG LLWYBR ELÁI

Bydd hyn yn eich helpu i ddarganfod rhai o nodweddion hanesyddol ac archeolegol diddorol ar hyd Llwybr Trelái. Mae'r rhain yn cynnwys Gorsaf Bwmpio Edwardaidd, ac olion Fila Rufeinig a'r Castell a'r Gerddi yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Cliciwch ar yr 'iconau' i ddarganfod mwy...

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3230

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad,

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth, www.caerdyddawyragored.com

